

CYNGOR CYMUNED EGLWYS BACH - COFNODION CYFARFOD 02/02/2015

PRESENNOL: Cynghorwyr: Arthur Williams, Ceri Leeder, Katherine Himsforth, Wendy Martin, Richard Newsham, Austin Roberts, Dawn Williams, Gwyn Williams, John Lloyd Williams, Mike Rayner.

1. **CROESO:** Croesawodd y Cadeirydd, Arthur Williams, bawb i'r cyfarfod.
2. **YMDDIHEURIADAU:** Dim.
3. **DATGAN DIDDORDEB:** Dim.
4. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF:** cafwyd cofnodion 05/01/15 yn gywir ac fe'u harwyddwyd.
5. **MATERION YN CODI O'R COFNODION:**

Llwybrau Cyhoeddus - y Cyng. Ceri Leeder wedi cael y mapiau gan Ms Rebecca Jackson a nododd bod Mrs Jutta Lorenz-Kubis, cerddwraig frwd, yn awyddus i adrodd yn ôl i'r Cyngor ynglŷn â chyflwr y llwybrau. Mae'r mapiau yn ei gofal a nodwyd bod rhai o'r llwybrau yn anghywir ar y map, a bydd angen tynnu sylw'r Sir at hyn. Cytunodd y Cyng. Mike Rayner i holi pwy yw Swyddog Llwybrau'r Sir a hysbysu'r Clerc er mwyn ceisio cael map arall ganddynt.

Ymunodd y Cyng. Dawn Williams a'r cyfarfod.

Gwifrau ffôn ar hyd Llwybr Bryn Hir - cafwyd cadarnhad gan Openreach y bydd y gwaith wedi ei orffen erbyn diwedd y mis.

Logo Cyngor Cymuned - cytunwyd ar gynllun rhif 1 a chytunodd y Cyng. Ceri Leeder i'w anfon ymlaen at y Clerc.

Sedd wag ar y Cyngor - darllenwyd e-bost gan Ms Rebecca Jackson a nododd y Clerc ei bod wedi anfon gair o ddiolch iddi. Cafwyd cadarnhad gan y Sir i symud ymlaen i gyfethol aelod newydd. Y Clerc i hysbysebu gyda dyddiad cau 27/02/15.

Plannu Coeden i ddathlu 100 mlynedd Sefydliad y W.I. - cafwyd ymateb gan Swyddog Coed y Sir (Mr Matt Bardsley) yn nodi mai coeden uchder canolig fyddai'n addas ar y safle oherwydd y gwifrau uwchben ac o dan y ddaear. Cytunodd y Cyng. Ceri Leeder i ddewis coeden ar y cyd a Mrs Eirwen Kenrick yn unol â chanllawiau'r Sir. Cytunodd y Cyng. Arthur Williams i ddarparu ffens fechan o amgylch y goeden.

Ffordd drwy Pennant - cafwyd cadarnhad gan y Sir nad oedd hi'n fwriad gan y perchennog i gamarwain na rhwystro cerddwyr/marchogaeth ceffylau rhag defnyddio'r ffordd a chytunwyd i osod nodwr llwybr wrth y fynedfa.

6. **CEISIADAU CYNLLUNIO:** Dim

Penderfyniad y Sir ar Geisiadau Cynllunio: Dim.

7. **MATERION PENODOL I'W PENDERFYNU:**

Taliadau - Mrs Sue Hayward, Glanhau Toiledau - £98.00
Mrs Einir Jones – cyflog a chostau'r Clerc ar gyfer mis Ionawr - £144.99
Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (Treth ar gyflog mis Ionawr y Clerc) - £30.00
Neuadd Aberconwy - £11.00.

8. **GOHEBIAETH:** derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:
 - Ad-daliad Glanhau Toiledau Cyhoeddus - £1,396.50 [CBSC];
 - Newidiadau Pwysig i Geisiadau am Dai Cymdeithasol [CBSC].

9. **UNRHYW FATER ARALL:**

Cyfarfod Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned - mynychodd y Cyng. Katherine Himsworth gyda'r prif faterion fel a ganlyn:

- Uno Cynghorau Conwy a Dinbych - ddim am gymryd lle;
- Cyllideb - rhagwelir 5% ar Dreth y Cyngor;
- Tai Fforddiadwy - yn ddelfrydol, dylai unrhyw dai newydd lleol mewn pentref o faint Eglwys Bach fod yn gwbl "fforddiadwy", ond efallai bydd rhaid bod ychydig yn hyblyg gyda hyn yn y dyfodol;
- Mesur Cynllunio - goblygiadau i Gynghorau T&Chymuned. Datblygiadau (e.e. tai) i gael eu trafod gyda'r Cynghorau hyn cyn cyflwyno cais cynllunio. Cynhelir gweithdai maes o law i drafod yr oblygiadau.

Diolchwyd i'r Cyng. Katherine Himsworth am fynychu'r Fforwm.

Siop y Llan - mynegwyd pryderon yn lleol am ddyfodol y Siop a'r Swyddfa Bost, gan mai bwriad y perchennog yw gwerthu. Cytunodd y Cyng. Mike Rayner i gysylltu â'r perchennog i rannu'r pryderon ac i geisio ei phryderon hi ynglŷn â llifogydd.

Sgaffaldiau Tŷ Llundain - nodwyd bod cwynion wedi eu derbyn am y sgaffaldiau o ran iechyd a diogelwch. Y Sir am edrych i mewn i'r mater.

Pwmp Dwr y Pentref - trafodwyd lleoliadau posibl i osod y pwmp, ond cytunwyd i geisio awgrymiadau gan drigolion lleol unwaith eto.

Awdit Ward - nododd y Cyng. Mike Rayner ei fod wedi cynnal awdit gyda Mr John Edwards gyda nifer o faterion ffyrdd/amgylchedd wedi eu codi ar gyfer sylw'r Sirs.

Materion Ffyrdd - Ffordd Llyn Syberi – y tyllau yn parhau heb gael eu llenwi a'r ffordd angen ei glanhau; Ffordd Penrhyd - ffosydd angen eu hagar o waelod Ffordd Llyn Syberi tuag at Tŷ Gwyn; Ffordd Bryn y Frân - ffens newydd angen ei osod ger y dibyn cyn cyrraedd Cefn Gwyn.

Nododd y Cyng. Mike Rayner bod Mr John Edwards yn symud i ardal arall i weithio. Cytunwyd i anfon gair o ddiolch iddo am ei waith yn lleol, bydd colled ar ei ôl.

Clwb Plant - y Cyng. Wendy Martin i gyfarfod a Swyddog o'r Fenter Iaith ar ôl hanner tymor i drafod ymhellach.

Clwb Ffit Gwledig - nododd y Cyng. Wendy Martin ei bod yn edrych ar y posibilrwydd o gael clwb yn y pentref o fis Ebrill ymlaen - yn amodol ar le i storio'r offer.

Ffordd Bryn Hir am Llety - nodwyd bod nifer o feiciau modur yn defnyddio'r ffordd. Cytunodd y Cyng. Mike Rayner i holi'r Sir ynglŷn â'r mater.

10. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF:** nos Lun 02/03/2015 am 7:30 o'r gloch.